

# Addysg Alwedigaethol Caerdydd

## Chwaraeon, Hamdden a Datblygiad

2023-2024

Cyfleoedd gwych i bobl ifanc



CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cyflwyniad

Mae rhaglenni Addysg Alwedigaethol Caerdydd a Cham Wrth Gam yn cynnig cyfleoedd gwych i bobl ifanc rhwng 11 a 16 oed ennill sgiliau a chael profiad gwaith ymarferol sydd eu hangen i ddatblygu mewn amrywiaeth o bynciau galwedigaethol cyffrous.

## Rhaglen Addysg Alwedigaethol Caerdydd - BTEC

Mae cyrsiau achrededig BTEC Addysg Alwedigaethol Caerdydd ar agor i bobl ifanc 14 – 16 oed.

Bydd y cyrsiau'n rhoi'r profiad gwaith sydd ei angen ar fyfyrwyr i symud ymlaen yn eu dewis bwnc a all arwain at addysg bellach, cynlluniau prentisiaethau, hyfforddeiaethau a gyrfa werth chweil.

Mae ein rhaglen strwythuredig yn cynnig cyrsiau achrededig mewn Technoleg Cerddoriaeth a Fideo, Mecaneg a Pheirianneg, Gofal Anifeiliaid, Ffitrwydd Iechyd a Maetheg, Astudiaethau Tir a Mynediad i Wasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r cyrsiau'n hyblyg ac yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau ar draws y ddinas fel Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd, Canolfan Beiciau Modur Oddi ar y Ffordd, Ysgol Farchogaeth Caerdydd a llawer mwy.

Cymerwch olwg ar y cyrsiau Addysg Alwedigaethol cyffrous sydd ar gael yn y llyfryn hwn.

## Rhaglen Cam Wrth Gam

Mae ein rhaglen Cam Wrth Gam yn rhoi cyfle i bobl ifanc 11-13 oed gael mewnwelediad i hyfforddiant galwedigaethol ac, ar ôl ei gwblhau, gellir symud ymlaen at gwrs Galwedigaethol manylach o 14 oed.

Cynhelir sesiynau un diwrnod yr wythnos mewn sawl gwahanol leoliad ar draws y ddinas gydol y flwyddyn ysgol. Mae'r rhaglen hefyd yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd, gweithdai sgiliau bywyd / ABCh a phwnc galwedigaethol o ddewis y myfyriwr.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Mark Thomas trwy ffonio 029 2233 0270 / 078 1454 4244 neu e-bostio AddysgAlwedigaethol@caerdydd.gov.uk



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Rhaglen Cam Wrth Gam | 3 |
| Technoleg Cerddoriaeth a Fideo | 5 |
| Mecaneg a Pheirianneg | 7 |
| Rhaglen Gofal Anifeiliaid | 9 |
| Iechyd, Ffitrwydd a Maeth | 11 |
| Astudiaethau Tir | 13 |
| Mynediad i Wasanaethau Cyhoeddus | 15 |
| Rhagor o Wybodaeth | 17 |

# Rhaglen Cam Wrth Gam

ar gyfer CA3 (Blynyddoedd 7, 8 a 9) a phobl ifanc 11-13 oed

Mae ein rhaglen Cam Wrth Gam yn rhoi cyfle i bobl ifanc 11-13 oed gael mewnweledïad i hyfforddiant galwedigaethol ac, ar ôl ei gwblhau, gellir symud ymlaen at gwrs galwedigaethol manwl o 14 oed neu CA4 (blwyddyn 10 ac 11).

Cynhelir sesiynau un diwrnod yr wythnos mewn sawl gwahanol leoliad ar draws y ddinas gydol y flwyddyn ysgol. Mae'r rhaglen hefyd yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd, gweithdai sgiliau bywyd / ABCh a phwnc galwedigaethol o ddewis y myfyriwr.

I gael mwy o wybodaeth am y rhaglen Cam Wrth Gam, cysylltwch â Mark Thomas trwy ffonio 02922 330270 / 07814 544244 neu e-bostio AddysgAlwedigaethol@caerdydd.gov.uk





Cynhelir sesiynau un diwrnod yr wythnos mewn sawl lleoliad gwahanol ar draws y ddinas drwy gydol y flwyddyn ysgol

# Technoleg Cerddoriaeth a Fideo

BTEC

Mae byd y cyfryngau a chynhyrchu yn gyffrous ac yn ddeinamig! Ar y cwrs hwn, byddwch yn gweithio gyda'r bobl o Ministry of Life ac yn archwilio diwydiant y Cyfryngau Creadigol a sectorau arbenigol cysylltiedig megis fideo, sain, rheoli digwyddiadau a ffotograffiaeth ddigidol.

Bydd y cwrs yn rhoi gwybodaeth gadarn i chi am bob agwedd ar greu negeseuon i'w darlledu ar y cyfryngau gydag offer safonol y diwydiant yn ein gweithdai a'n stiwdios modern.

Bydd myfyrwyr yn gallu manteisio ar ganolfan adnoddau dysgu gyda'r holl offer angenrheidiol yng Nghanolfan Ieuenctid East Moors.

## Y pynciau dan sylw

- Creu bwrdd stori
- Creu hysbyseb deledu
- Creu ffilm fer
- Creu cyflwyniad rhyngweithiol
- Gwella eich sgiliau Saesneg a Mathemateg
- Magu hunanhyder a'r wybodaeth i ymgeisio am swyddi yn y sector
- Deall a magu'r sgiliau a'r rhinweddau y mae eu hangen i weithio yn y diwydiant hwn

## Sut caiff y cwrs ei asesu?

Caiff ei asesu trwy dasgau a gwaith cwrs

## Ble caiff y cwrs ei gynnal?

Ysgol Gerddoriaeth Caerdydd, Tŷ'r Farchnad, Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE

## At beth gall y cwrs arwain?

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, gallwch chi symud ymlaen at gwrs Lefel 2, prentisiaeth neu gyflogaeth.

## Gofynion mynediad y cwrs

Ar gyfer CA4 Blwyddyn 10 ac 11 a phobl ifanc 14-16 oed.

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ond dylai fod diddordeb pendant gan ymgeiswyr yn y pwnc.






Bydd y cwrs yn rhoi gwybodaeth gadarn i chi am bob agwedd ar greu negeseuon i’w darlledu ar y cyfryngau gydag offer safonol y diwydiant yn ein gweithdai a’n stiwdios modern.

# Mecaneg a Pheirianneg

BTEC

Yn ogystal â dysgu sgiliau cynnal a chadw beiciau mecanyddol a thechnegau reidio mewn rhaglen hyfforddi achrededig, mae'r gweithgarwch corfforol sydd ynghlwm wrth gymryd rhan mewn sesiynau Chwaraeon Modur yn yr amgylchedd naturiol wedi cael ei brofi i fod yn ddull effeithiol o ysgogi dysgu. Mae hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a meithrin tîm sydd, yn ei dro, yn gwella'r cyfle o gael cyflogaeth yn y dyfodol.

Nod y rhaglen chwaraeon modur a pheirianneg, sy'n brosiect cymunedol ar gyfer beiciau modur oddi ar y ffordd, yw darparu amgylchedd diogel a rheoledig i bobl ifanc ddysgu a magu sgiliau newydd. Bydd myfyrwyr yn gallu manteisio ar ganolfan beicio modur oddi ar y ffordd â'r holl offer angenrheidiol.

## Y pynciau dan sylw

- Cynnal a chadw beiciau modur
- Reidio beiciau modur
- Gwaith paratoi ymarferol
- Ymarfer corff
- Sgiliau cymdeithasol
- Rhifedd a llythrennedd
- Datblygiad personol
- Magu hunanhyder a'r wybodaeth i ymgeisio am swyddi yn y sector
- Deall a magu'r sgiliau a'r rhinweddau y mae eu hangen i weithio yn y diwydiant hwn

## Sut caiff y cwrs ei asesu?

Caiff ei asesu trwy aseiniadau ymarferol a gwaith cwrs.

## Ble caiff y cwrs ei gynnal?

Canolfan Beiciau Modur Oddi ar y Ffordd, ger Rover Way, Tremorfa, Caerdydd

## At beth gall y cwrs arwain?

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, gallwch chi symud ymlaen at gwrs Lefel 2, prentisiaeth neu gyflogaeth.

## Gofynion mynediad y cwrs

Ar gyfer CA4 Blwyddyn 10 ac 11 a phobl ifanc 14-16 oed.

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ond dylai fod diddordeb pendant gan ymgeiswyr yn y pwnc.





Nod y rhaglen chwaraeon modur a pheirianneg yw darparu amgylchedd diogel a rheoledig i bobl ifanc ddysgu a magu sgiliau newydd.

# Rhaglen Gofal Anifeiliaid

BTEC

Mae Ysgol Farchogaeth Caerdydd yn cynnig ystod eang o gymwysterau mewn perthynas â gofal ceffylau a merlod a rheoli stablau.

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal yn Ysgol Farchogaeth Caerdydd (YFC) lle mae'r holl staff yn gwbl gymwys ac achrededig. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas, tra'n dal i fwynhau lleoliad lled-wledig. Bydd y rhan fwyaf o'r sesiynau yn YFC yn ymarferol ac yn rhyngweithiol ond nid oes angen i ddysgwyr fod wedi cael unrhyw brofiad blaenorol gyda cheffylau.

## Y pynciau dan sylw

- Dysgu sut i ofalu am geffylau a merlod
- Dysgu technegau rheoli ceffylau sylfaenol
- Cynnal archwiliadau dyddiol o geffylau i chwilio am gyflyrau iechyd
- Gwella sgiliau trefnu drwy gynllunio digwyddiadau
- Meithrin cyfeillgarwch
- Datblygu sgiliau arwain a gwaith tîm
- Gwella sgiliau rheoli amser
- Cyfleoedd i farchogaeth

## Sut caiff y cwrs ei asesu?

Caiff ei asesu trwy aseiniadau a gwaith cwrs.

## Ble caiff y cwrs ei gynnal?

Ysgol Farchogaeth Caerdydd, Caeau Pontcanna, Fields Park Road, Pontcanna, Caerdydd, CF5 2AX

## At beth gall y cwrs arwain?

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, gallwch chi symud ymlaen at gwrs Lefel 2, prentisiaeth neu gyflogaeth.

## Gofynion mynediad y cwrs

Ar gyfer CA4 Blwyddyn 10 ac 11 a phobl ifanc 14-16 oed.

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ond dylai fod diddordeb pendant gan ymgeiswyr yn y pwnc.







Mae Ysgol Farchogaeth Caerdydd yn cynnig ystod eang o gymwysterau mewn perthynas â gofal ceffylau a merlod a rheoli stablau.

# Iechyd, Ffitrwydd a Maeth

BTEC

Mae'r cwrs Iechyd, Ffitrwydd a Maeth ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb yn y diwydiant chwaraeon trwy roi cyfle iddynt gael cipolwg ar fanteision ffordd iach o fyw. Cwrs ymarferol ac ystafell ddosbarth yw hwn ond gellir ei addasu ar gyfer pob gallu dysgu.

Rydym yn edrych ar batrymau bwyta ac ymarfer corff unigol cyffredin mewn bywyd bob dydd, gyda'r nod o gynnig dewisiadau eraill a allai newid eu bywydau. Nid yn unig y gall yr unigolyn ddefnyddio'r pethau a ddysgir, ond bydd modd eu haddasu ar gyfer pob aelod o'r teulu. Yn ogystal â bod yn gymwys mewn amgylchedd campfa, ar ddiwedd y cwrs bydd y myfyrwyr yn ennill cymhwyster ACU a fydd yn eu galluogi i fynd i'r gampfa heb oruchwyliaeth i barhau â'r pethau da sydd wedi'u dysgu. Bydd myfyrwyr yn gallu manteisio ar y gampfa a'r ganolfan hamdden sy'n llawn o'r holl offer angenrheidiol yng Nghanolfan Trem y Môr.

## Y pynciau dan sylw

- Deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw
- Maeth
- Deall sut gall ffitrwydd ac ymarfer corff effeithio ar ffyrdd o fyw
- Deall y rhwystrau i ffordd iach o fyw
- Deall eich gofynion diet a ffitrwydd eich hun
- Hyfforddiant Cardiofasgwlaidd ac Aerobig
- Hyfforddiant Ymwrthedd
- Grwpiau Cyhyrau
- Ymddygiad yn y Gampfa
- Iechyd a Diogelwch
- Ymarferion cynhesu ac ymlacio

## Sut caiff y cwrs ei asesu?

Caiff ei asesu trwy aseiniadau ymarferol a gwaith cwrs.

## Ble caiff y cwrs ei gynnal?

Canolfan Trem y Môr, Rhodfa Jim Driscoll, Grangetown, Caerdydd, CF11 7HB

## At beth gall y cwrs arwain?

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, gallwch chi symud ymlaen at gwrs Lefel 2, prentisiaeth neu gyflogaeth.

## Gofynion mynediad y cwrs

Ar gyfer CA4 Blwyddyn 10 ac 11 a phobl ifanc 14-16 oed.

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ond dylai fod diddordeb pendant gan ymgeiswyr yn y pwnc.





Yn ogystal â bod yn gymwys mewn amgylchedd campfa, ar ddiwedd y cwrs bydd y myfyrwyr yn ennill cymwysterau ACU a fydd yn eu galluogi i fynd i'r gampfa heb oruchwyliaeth.

# Astudiaethau Tir

BTEC

Mae’r cwrs hwn yn ddelfrydol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu sgiliau ymarferol a gwybodaeth ynglŷn â garddwriaeth, coedyddiaeth, tir, bywyd gwyllt a physgodfeydd.

Mae’r cwrs hwn yn cynnwys gwaith ystafell ddosbarth a phrofiad ymarferol gyda Cheidwaid Cymunedol Cyngor Caerdydd mewn amrywiaeth o leoliadau tir. Mae’r unedau’n ymdrin â’r amrywiaeth o sgiliau ymarferol a’r wybodaeth y mae eu hangen i weithio yn y diwydiannau tir ac amgylcheddol.

## Y pynciau dan sylw

- Gweithio’n ddiogel a gweithio mewn tîm
- Cynnal a chadw offer
- Gofal lawntiau
- Plannu a sefydlu planhigion
- Plannu coed a’u hôl-ofal
- Pysgod a’r amgylchedd dŵr

## Sut caiff y cwrs ei asesu?

Caiff ei asesu trwy aseiniadau ymarferol a gwaith cwrs.

## Ble caiff y cwrs ei gynnal?

Mewn parciau yng Nghaerdydd a Fferm y Fforest gyda’r Ceidwaid Cymunedol.

## Gofynion mynediad y cwrs

Ar gyfer CA4 Blwyddyn 10 ac 11 a phobl ifanc 14-16 oed.

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ond dylai fod diddordeb pendant gan ymgeiswyr yn y pwnc.

## At beth gall y cwrs arwain?

Ar ôl cwblhau’r cwrs hwn yn llwyddiannus, gallwch chi symud ymlaen at gwrs Lefel 2, prentisiaeth neu gyflogaeth.





Mae’r cwrs hwn yn cynnwys gwaith ystafell ddosbarth a phrofiad ymarferol gyda Cheidwaid Cymunedol Cyngor Caerdydd mewn amrywiaeth o leoliadau tir.

# Mynediad i Wasanaethau Cyhoeddus

BTEC

Mae'r cwrs hwn yn gyflwyniad da i waith gwasanaeth cyhoeddus mewn iwnifform. Mae'n addas i unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwasanaethau cyhoeddus fel y lluoedd arfog, y gwasanaeth tân, yr heddlu, y gwasanaeth carchardai a Thollau Tramor a Chartref.

Dylech chi feddu ar lefel dda o ffitrwydd corfforol a sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu gyda pharodrwydd i ddatblygu'r rhain, a dylech chi fwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau awyr agored. Bydd gan y myfyrwyr fynediad llawn at gyfleusterau ar y safle.

## Y pynciau dan sylw

- Gweithio'n ddiogel a gweithio mewn tîm
- Iechyd a ffitrwydd ar gyfer mynediad i wasanaethau
- Darllen mapiau
- Sgiliau personol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus ac arweinyddiaeth
- Gwaith tîm ymarferol
- Digwyddiadau gwasanaeth cyhoeddus
- Cyflwyniad i sgiliau alldaith

## Sut caiff y cwrs ei asesu?

Caiff ei asesu trwy aseiniadau ymarferol a gwaith cwrs.

## Ble caiff y cwrs ei gynnal?

Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd, Ffordd Watkiss, Bae Caerdydd, CF11 0SY

www.dgrhc.com

## At beth gall y cwrs arwain?

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, gallwch chi symud ymlaen at gwrs Lefel 2, prentisiaeth neu gyflogaeth.

## Gofynion mynediad y cwrs

Ar gyfer CA4 Blwyddyn 10 ac 11 a phobl ifanc 14-16 oed.

Nid oes angen unrhyw ofynion ffurfiol ond dylai fod diddordeb pendant gan ymgeiswyr yn y pwnc.






Dylech chi feddu ar lefel dda o ffitrwydd corfforol a sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu gyda pharodrwydd i ddatblygu’r rhain, a dylech chi fwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau awyr agored.

# Addysg Alwedigaethol - Polisi Preifatrwydd Caerdydd

Bydd y polisi preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae Addysg Alwedigaethol Caerdydd yn defnyddio'r data personol a gasglwn gennych pan fyddwch yn defnyddio www.caerdydd.gov.uk/addysgalwedigaethol neu pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaeth i gymryd rhan yn ein gweithgareddau. Mae Addysg Alwedigaethol Caerdydd yn rhan o Gyngor Caerdydd, Rheolydd y Data at ddibenion casglu data. Prosesir yr holl ddata personol yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU a Deddf Diogelu Data 2018.

### Pynciau:

- Pa ddata rydym yn ei gasglu a pham?
- Sut rydym yn casglu eich data?
- Sut byddwn yn defnyddio eich data?
- Sut rydym yn storio eich data?
- Marchnata
- Beth yw eich hawliau diogelu data?
- Beth yw cwcis?
- Sut rydym yn defnyddio cwcis?
- Pa fathau o gwcis rydym yn eu defnyddio?
- Sut i reoli eich cwcis
- Polisïau preifatrwydd gwefannau eraill
- Newidiadau i'n polisi preifatrwydd
- Sut i gysylltu â ni
- Sut i gysylltu â'r awdurdodau priodol

### Pa ddata rydym yn ei gasglu?

Mae Addysg Alwedigaethol Caerdydd yn casglu'r data canlynol:

- Gwybodaeth adnabod bersonol fel enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, gwybodaeth feddygol
- Cydsyniad rhiant
- Anghenion dysgu ychwanegol a chymorth
- Hawl i gael prydau ysgol am ddim
- Presenoldeb dyddiol
- Cymwysterau

Cesglir hyn er mwyn cefnogi'r tiwtoriaid sy'n cyflwyno ein rhaglenni. Mae Cyfraith Diogelu Data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus dan Ddeddf Addysg 1996.

### Sut rydym yn casglu eich data?

Rydych yn rhoi'r rhan fwyaf o'r data rydym yn ei gasglu i Addysg Alwedigaethol Caerdydd yn uniongyrchol. Rydym yn casglu data ac yn prosesu data pan fyddwch yn:

- Cofrestru ar-lein neu archebu unrhyw un o'n cynhyrchion neu wasanaethau.
- Cwblhau arolwg cwsmeriaid yn wirfoddol neu'n rhoi adborth ar unrhyw un o'n byrddau negeseuon neu drwy e-bost.
- Defnyddio ein gwefan neu edrych arni trwy gwcis eich porwr.
- Defnyddio'r ffurflen atgyfeirio ysgolion

Efallai y bydd Addysg Alwedigaethol Caerdydd hefyd yn cael eich data yn anuniongyrchol o'r ffynonellau canlynol:

- Yr ysgol neu'r asiantaeth sy'n atgyfeirio

### Sut byddwn yn defnyddio eich data?

Mae Addysg Alwedigaethol Caerdydd yn casglu eich data fel y gallwn:

- Brosesu eich archeb a rheoli eich cyfrif.
- E-bostio cynnydd a chyflawniadau myfyrwyr atoch.
- Monitro cynnydd myfyrwyr
- Adrodd am bresenoldeb dyddiol

Os ydych yn cytuno, bydd Addysg Alwedigaethol Caerdydd yn rhannu eich data gyda'n cwmnïau partner er mwyn iddynt allu cynnig eu cynhyrchion a'u gwasanaethau i chi - pe byddech yn dymuno tynnu eich caniatâd yn ôl byddai angen i chi gysylltu â'r cwmnïau hynny'n uniongyrchol.

Byddwn yn rhannu presenoldeb dyddiol a chynnydd myfyrwyr gydag ysgolion.

### Sut rydym yn storio eich data?

Mae Addysg Alwedigaethol Caerdydd yn storio'ch data yn ddiogel yng nghronfa ddata AWS DynamoDB ac mae pob trosglwyddiad data wedi'i amgryptio â diogelwch haen trafnidiaeth (TLS). Caiff pob trosglwyddiad data ei gofnodi.

Bydd Addysg Alwedigaethol Caerdydd yn cadw eich ffurflen atgyfeirio, presenoldeb a chyrhaeddiad cwrs am 12 mis. Ar ôl i'r cyfnod hwn ddod i ben, byddwn yn dileu eich data o'n cronfa ddata – Os bydd dysgwr yn cael damwain wrth gymryd rhan mewn cwrs, cedwir ffurflenni cydsyniad am 6 blynedd.

### Beth yw eich hawliau diogelu data?

Hoffai Addysg Alwedigaethol Caerdydd wneud yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'ch holl hawliau diogelu data. Mae gan bob defnyddiwr hawl i'r canlynol:

**Yr hawl i gael mynediad** – Mae gennych hawl i ofyn i Addysg Alwedigaethol Caerdydd am gopïau o'ch data personol.

**Yr hawl i gywiro** – Mae gennych hawl i ofyn i Addysg Alwedigaethol Caerdydd gywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir yn eich barn chi. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i'n Cwmni gwblhau'r wybodaeth sy'n anghyflawn yn eich barn chi.

**Yr hawl i ddileu** – Mae gennych hawl i ofyn i Addysg Alwedigaethol Caerdydd ddileu eich data personol, dan rai amodau.

**Yr hawl i gyfyngu prosesu** – Mae gennych hawl i ofyn i Addysg Alwedigaethol Caerdydd gyfyngu ar brosesu eich data personol, dan rai amodau.

**Yr hawl i wrthwynebu prosesu** – Mae gennych hawl i wrthwynebu i Addysg Alwedigaethol Caerdydd brosesu eich data personol, dan rai amodau.

**Yr hawl i gludo data** – Mae gennych hawl i ofyn i Addysg Alwedigaethol Caerdydd drosglwyddo'r data rydym wedi'i gasglu i sefydliad arall, neu'n uniongyrchol i chi, dan rai amodau.

Os gwnewch gais, bydd gennym un mis i ymateb i chi. Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â ni ar ein cyfeiriad e-bost:

DiogeluData@caerdydd.gov.uk

Ffoniwch ni ar:02920 877900

Neu ysgrifennwch atom:

Addysg Alwedigaethol Caerdydd,
Awdurdod Harbwr Caerdydd,
Tŷ'r Frenhines Alexandra,
Heol y Cargo,
Bae Caerdydd,
CF10 4LY

## Cwcis

Mae cwcis yn ffeiliau testun a roddir ar eich cyfrifiadur i gasglu gwybodaeth log rhyngrwyd safonol a gwybodaeth am ymddygiad defnyddwyr. Pan fyddwch yn defnyddio ein gwefannau, mae'n bosibl y byddwn yn casglu data gennych yn awtomatig trwy gwcis neu dechnoleg debyg

I gael mwy o wybodaeth, ewch i allaboutcookies.org

## Sut rydym yn defnyddio cwcis?

Mae Ein Cwmni yn defnyddio cwcis mewn amrywiaeth o ffyrdd i wella'ch profiad ar ein gwefan, gan gynnwys:

- Eich cadw wedi'ch mewngofnodi
- Deall sut rydych yn defnyddio ein gwefan

## Pa fathau o gwcis rydym yn eu defnyddio?

Mae nifer o wahanol fathau o gwcis, fodd bynnag, mae ein gwefan yn defnyddio:

**Ymarferoldeb** – Mae Ein Cwmni yn defnyddio'r cwcis hyn fel ein bod yn eich adnabod ar ein gwefan ac yn cofio'r hyn a ddewiswyd gennych yn flaenorol. Gallai hyn gynnwys eich dewis iaith a'ch lleoliad. Defnyddir cymysgedd o gwcis parti cyntaf a thrydydd parti.

**Hysbysebu** – Mae Ein Cwmni yn defnyddio'r cwcis hyn i gasglu gwybodaeth am eich defnydd o'n gwefan, y cynnwys yr edrychoch arno, y dolenni a ddilynwyd gennych a gwybodaeth am eich porwr, eich dyfais, a'ch cyfeiriad IP. Mae Ein Cwmni weithiau'n rhannu rhai agweddau cyfyngedig ar y data hwn â thrydydd partïon at ddibenion hysbysebu. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu data ar-lein a gesglir drwy gwcis gyda'n partneriaid hysbysebu. Mae hyn yn golygu, pan fyddwch yn defnyddio gwefan arall, efallai y dangosir hysbysebion i chi yn seiliedig ar eich patrymau pori ar ein gwefan ni.

## Sut i reoli cwcis

Gallwch osod eich porwr i beidio â derbyn cwcis, ac mae'r wefan uchod yn dweud wrthych sut i ddileu cwcis o'ch porwr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae'n bosib na fydd rhai o nodweddion y wefan yn gweithio o ganlyniad i hynny.

## Polisïau preifatrwydd gwefannau eraill

Mae gwefan Ein Cwmni yn cynnwys dolenni i wefannau eraill. Dim ond i'n gwefan ni y mae ein polisi preifatrwydd yn berthnasol, felly os byddwch yn clicio ar ddolen i wefan arall, dylech ddarllen eu polisi preifatrwydd nhw.

## Newidiadau i'n polisi preifatrwydd

Mae Ein Cwmni yn adolygu ei bolisi preifatrwydd yn rheolaidd ac yn rhoi unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon. Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 12 Ionawr 2023.

## Sut i gysylltu â ni

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am bolisi preifatrwydd Addysg Alwedigaethol Caerdydd, y data rydym yn ei gadw amdanoch, neu os hoffech arfer un o'ch hawliau diogelu data, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bost: diogeludata@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post:

Swyddog Diogelu Data
Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

## Sut i gysylltu â'r awdurdod priodol

Os hoffech gwyno neu os teimlwch nad yw Addysg Alwedigaethol Caerdydd wedi mynd i'r afael â'ch cwyn yn briodol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r wefan https://ico.org.uk/concerns/getting/ neu drwy ffonio 0303 123 1113.

# Mwy o wybodaeth

### Sut i wneud cais

Cysylltwch â Mark Thomas i ofyn am Ffurflen Atgyfeirio Myfyriwr.

Dylai ffurflenni Atgyfeirio Myfyriwr gael eu cwblhau gan staff addysgu ysgolion cynradd, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (AAA) neu weithwyr cymdeithasol.

Bydd cydlynydd y cwrs yn cadarnhau lleoedd ar ôl asesu addasrwydd o'r ffurflenni atgyfeirio.

### Manylion cyswllt

Mark Thomas

Swyddfa: 029 2233 0270

Ffôn Symudol: 078 1454 4244

E-bost: AddysgAlwedigaethol@caerdydd.gov.uk

Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/addysgalwedigaethol

Cyngor Caerdydd, Awdurdod Harbwr Caerdydd, Tŷ'r Frenhines Alexandra, Heol y Cargo, Bae Caerdydd, CF10 4LY

**COVID-19**

Mae'r rhaglen yn cydymffurfio â chanllawiau COVID diweddaraf y Llywodraeth. I gael mwy o wybodaeth ewch i www.llyw.cymru/coronafeirws

**Ymwadiad:**

Bydd Cyngor Caerdydd yn ymdrechu i ddarparu cyrsiau yn unol â'r disgrifiadau a nodir yn y prosbectws hwn.

Mae Cyngor Caerdydd yn cadw'r hawl i wneud addasiadau i gynnwys y cyrsiau neu sut cânt eu darparu, i ddiddymu cyrsiau ac i gyfuno cyrsiau os ystyrir bod angen cymryd y fath gamau. Mae Cyngor Caerdydd yn cadw'r hawl ar ei ddisgresiwn ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm i wneud newidiadau i'r gwasanaethau a nodir yn y prosbectws hwn heb roi rhybudd ymlaen llaw gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Tynnu cynnig cwrs yn ôl os nad yw'n denu isafswm y myfyrwyr sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau
- Gwneud newidiadau i raglenni a chyrsiau am resymau sy'n cynnwys cydweddu â datblygiadau technolegol neu academaidd i fyfyrwyr



CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD